

Prifysgol Bangor
Hysbysiad Preifatrwydd
Adnoddau Dynol - Data Cydraddoldeb Staff

Prifysgol Bangor yw'r Rheolwr Data ac mae wedi ymrwymo i warchod hawliau unigolion yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Mae'r dosbarthiadau o wybodaeth rydym yn eu casglu, eu prosesu a'u cadw ar weithlu'r Brifysgol yn cynnwys:

- data personol (megis enw, cyfeiriad cartref)
- nodweddion a warchodir fel y diffinnir hynny gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (megis grŵp ethnig, tueddfryd rhywiol)
- gwybodaeth gontract (megis dyddiadau dechrau, oriau a weithir, swydd/swyddogaethau, graddfa, cyflog)

Pam rydym yn casglu a defnyddio'r wybodaeth hon

Rydym yn defnyddio data ar weithlu'r Brifysgol i'n galluogi i gydymffurfio â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011 yn cynnwys:

- ein galluogi i fonitro cydraddoldeb gan arwain at gynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb
- galluogi datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- goleuo datblygiad polisiau cynhwysol, yn cynnwys recriwtio a dal gafael, datblygu staff a mynediad cynhwysol at ein gwasanaethau

Y sail gyfreithiol rydym yn prosesu'r wybodaeth hon arni

Rydym yn prosesu'r wybodaeth hon dan Erthygl 6 ac/neu Erthygl 9 y GDPR lle bo'n berthnasol

Erthygl 6

- Mae gwrthrych y data wedi **cydsynio** i'r prosesu
- Mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu **contract** y mae gwrthrych y data yn rhan ohono
- Mae'r prosesu'n angenrheidiol i gydymffurfio â **rhwymedigaeth gyfreithiol**
- Mae'r prosesu'n angenrheidiol i ddibenion **buddiannau cyfreithlon** y rheolwr neu drydydd parti.

Erthygl 9

Mae'r prosesu'n angenrheidiol i ddibenion cyflawni rhwymedigaethau'r rheolwr neu wrthrych y data ym maes **cyflogaeth**

Casglu'r wybodaeth hon

Tra bo peth o'r wybodaeth a roddwch i ni yn orfodol (e.e. rhyw gyfreithiol, dyddiad geni - er mwyn llunio contract) mae peth ohoni'n cael ei rhoi i ni yn wirfoddol. Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth gwarchod data, byddwn yn egluro p'un a oes rhaid i chi ddarparu rhai agweddau ar wybodaeth i ni yn ymwneud â gweithlu'r Brifysgol, neu a oes gennych ddewis yn hyn o beth.

Storio'r wybodaeth hon

Rydym yn cadw data cydraddoldeb ar weithlu'r Brifysgol ar ein system Adnoddau Dynol ddiogel yn unol â'r rhestr cadw gwybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan.

Gyda phwy rydym yn rhannu'r wybodaeth hon

Rydym yn rhannu'r wybodaeth hon yn gyson mewn fformat anhysbys gyda'r cyrff allanol a ganlyn:

HEFCW

Ein Hundebau Llafur cydnabyddedig

Cyhoeddir ein Hadroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ar ein gwefan ym mis Mawrth bob blwyddyn.

Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

UCEA

Athena Swan

DLA Piper

Nid ydym yn rhannu gwybodaeth am aelodau ein gweithlu gydag unrhyw un heb ganiatâd oni bai bod y gyfraith a'n polisïau yn ein galluogi i wneud hynny.

Gofyn am gael mynd at eich data personol

Dan ddeddfwriaeth gwarchod data, mae gennych hawl i ofyn am gael mynd at y wybodaeth sydd gennym amdanoch. Cysylltwch â Swyddog Gwarchod Data'r Brifysgol (Tîm Llywodraethu a Chydymffurfio) i ofyn am weld eich data personol Mae hawl gennych hefyd i:

- wrthwynebu prosesu eich data personol lle mae hynny'n debygol o achosi (neu yn achosi) niwed neu drallod
- dynnu'n ôl eich caniatâd i brosesu neu storio data a gasglwyd yn flaenorol, drwy gysylltu â'r adran Adnoddau Dynol drwy e-bost neu lythyr
- rwystro prosesu i ddibenion marchnata uniongyrchol
- wrthwynebu i benderfyniadau gael eu gwneud gan ddulliau awtomataidd
- fynnu, mewn rhai amgylchiadau, bod data personol anghywir yn cael eu cywiro, eu chwalu neu eu dinistrio; a
- hawlio iawndal am niwed a achoswyd drwy dorri'r rheoliadau Gwarchod Data.

Os oes gennych bryder ynghylch y ffordd rydym yn casglu neu ddefnyddio eich data personol, rydym yn gofyn i chi godi eich pryder yn y lle cyntaf gyda Swyddog Gwarchod Data'r Brifysgol (Tîm Llywodraethu a Chydymffurfio).

Fel arall, gellwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn <https://ico.org.uk/concerns/>

Mwy o wybodaeth

Os hoffech drafod unrhyw beth sydd yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â'r Uwch Swyddog AD (Cydraddoldeb) yn yr Adran Adnoddau Dynol.